Y GYNGHRAIR YSGOLION A CHEFNOGWYR

Gweithgor: Thomas Prys Jones, Myrddin ap Dafydd, Ieuan Wyn, Ffred Ffransis
www.ysgol.co.uk E-bost: post@ysgol.co.uk

Neges i Gynghorwyr Cyngor Gwynedd

Annwyl Gynghorydd,

Ar ran 51 o Ysgolion Gwynedd, hoffem eich llongyfarch ar eich llwyddiant yn yr etholiad.

Neges amlwg yr etholiad yma yw bod gwrando ar lais yr etholwyr yn hanfodol. Mae penaethiaid, llywodraethwyr, rhieni a chymunedau na wrandawyd ar eu dadleuon am y Cynllun ad-drefnu, bellach wedi cael eu clywed.

Un o'r rhai cyntaf i weld y cynllun ad-drefnu oedd y Cynghorydd Penri Jones, a oedd yn Ddeilydd Portffolio Addysg y sir. Gwrthododd y ddogfen, a dyma ei sylwadau amdani: "Yn hytrach na gwrando, 'roedd y swyddogion wedi neidio i'r pegwn eithaf arall. Anodd fyddai dychmygu cynllun mwy dinistriol ac eithafol." Ni wrandawyd arno.

Mae bron i hanner ysgolion Gwynedd, ac ymhell dros hanner yr ysgolion sydd yn wynebu newidiadau, wedi gwrthod y cynllun presennol yn llwyr. Mae'r argymhellion eisoes wedi creu rhwygiadau rhwng llywodraethwyr ysgolion unigol, rhwng ysgolion cyfagos a'i gilydd, ac o fewn cymunedau, a phleidiau gwleidyddol.

Yn wahanol i hyn, ymhlith Ysgolion y Gynghrair gwelir enghreifftiau o ewyllys da ac awydd i gyd-weithio. Ym Mhenllyn mae ysgol Llanuwchllyn ac eraill wedi sefyll yn gadarn gydag Ysgol Y Parc yn ei hargyfwng. Ym Mhen Llŷn, mae ysgolion dalgylch Botwnnog wedi sefyll yn unfrydol gyda'i gilydd er bod addewidion am un ysgol newydd a dim newidiadau i un arall. Mae'r Gynghrair Ysgolion a Chefnogwyr yn barod i gyd-weithio â'r Cyngor i ddod o hyd i'r atebion cywir. Gofynnwn am yr un ymrwymiad gan bob cynghorydd yn ogystal ag ar draws y pleidiau yn y Cyngor.

Ein cais ni fel Cynghrair yw i'r Cyngor roi'r cynllun drafft presennol o'r neilltu yn gyfan gwbl a mynd ati i edrych ar bob ysgol a chymuned yn unigol, a chwblhau ac ystyried canlyniadau proffiliau, asesiadau ac astudiaethau pellach, yn ogystal â barn llywodraethwyr a rhieni. Dyma'r unig ffordd i adennill ymddiriedaeth y cyhoedd ar y mater yma.

Mae nifer o gynghorwyr eisoes wedi datgan eu cefnogaeth.

Gofynnwn yn garedig i chi ddatgan eich cefnogaeth i'r alwad i roi heibio'r cynllun presennol drwy anfon y bonyn ar waelod yr ail dudalen i'r cyfeiriad isod neu e-bostio post@ysgol.co.uk

Gan obeithio derbyn ymateb gennych yn fuan.

Mae'r ysgolion isod yn rhan o'r Gynghrair sydd yn galw ar Gyngor Gwynedd i roi'r cynllun presennol o'r neilltu a chreu cynlluniau newydd yng ngoleuni – asesiadau ac astudiaethau pellach, a barn rhieni a llywodraethwyr :-

Ysgolion y Gynghrair:

Ysgol Abererch, Ysgol Abersoch, Ysgol Baladeulyn, Ysgol Beddgelert, Ysgol Borth-y-Gest, Ysgol Brithdir, Ysgol Bronyfoel, Ysgol Bro Plenydd, Ysgol Brynaerau, Ysgol Bro Hedd Wyn, Ysgol Bryncrug, Ysgol Carmel, Ysgol Chwilog, Ysgol Clogau, Ysgol Croesor, Ysgol Crud y Werin, Ysgol Dinas Mawddwy,	Ysgol Dyffryn Ardudwy, Ysgol Edern, Ysgol Felinwnda, Ysgol Foel Gron, Ysgol Ffridd y Llyn, Ysgol Ganllwyd, Ysgol Garndolbenmaen, Ysgol Llanaelhaearn, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Llandwrog, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Llangybi, Ysgol Llanllyfni, Ysgol Llanystumdwy, Ysgol Llawrybetws, Ysgol Llidiardau, Ysgol Llwyngwril,	Ysgol Machreth, Ysgol Manod, Ysgol Morfa Nefyn, Ysgol Nefyn, Ysgol Parc, Ysgol Pentreuchaf, Ysgol Pont y Gof, Ysgol Rhiwlas, Ysgol Rhostryfan, Ysgol Rhydyclafdy, Ysgol Santes Helen, Ysgol Sarn Bach, Ysgol Talysarn, Ysgol Tudweiliog, Ysgol y Garreg, Ysgol y Gorlan, Ysgol yr Eifl

- - - -